



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

---

# Canllawiau Safoni Enwau Lleoedd Cymru





Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

---

# Cefndir

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, sefydliad annibynnol a grëwyd yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw i'r ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Bydd dwy egwyddor yn sail i'r gwaith:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny

Manylion Cyswllt:

- Ffôn: 0345 6033 221
- E-bost: [post@cyg-wlc.cymru](mailto:post@cyg-wlc.cymru)
- Gwefan: [comisiynyddygyymraeg.cymru](http://comisiynyddygyymraeg.cymru)

Comisiynydd y Gymraeg  
Siambrau'r Farchnad  
5–7 Heol Eglwys Fair  
Caerdydd CF10 1AT

---

# Cynnwys

---

Gwasanaeth Comisiynydd y Gymraeg	1
1. Orgraff safonol	1
2. <i>Rhestr o Enwau Lleoedd</i>	1
3. Cysylltnod	2
4. Un gair neu fwy?	2
5. Enwau personol	3
6. Bathiadau	4
7. Tafodiaith	4
8. Ffurfiâu deuol	4
9. Y fannod (y/yr/'r) ac elfennau dibwyslais eraill	4
10. Y didolnod ar -i- acennog yn y goben	5
11. Y collnod mewn enwau lleoedd Cymraeg	5
12. Atalnodi mewn enwau lleoedd Saesneg	5
13. Enwau tirweddol tawtolegol	5



**Enwau Lleoedd  
Safonol Cymru**  
**Standard Welsh  
Place-names**



## Gwasanaeth Comisiynydd y Gymraeg

Mae gan Gomisiynydd y Gymraeg gyfrifoldeb i gynnig cyngor ar ffurfiau safonol enwau lleoedd Cymru. Mae'r Comisiynydd wedi cynnull Panel Safoni Enwau Lleoedd i gynnig cyngor arbenigol yn y maes hwn. Wrth lunio'i argymhellion, yn ogystal â'r canllawiau isod, bydd y Panel yn ystyried ystyr, hanes a tharddiad yr enwau lleoedd ynghyd â'r defnydd a wneir ohonynt. Gellir dod o hyd i'r argymhellion ynghylch sut i sillafu enwau lleoedd mewn ffordd safonol yn rhestr [Enwau Lleoedd Safonol Cymru](#) ar wefan y Comisiynydd.

Mae'r Canllawiau isod yn benodol ar gyfer enwau aneddiadau Cymru (pentrefi, trefi a dinasoedd) a'i nodweddion tirweddol (llynnoedd, afonydd, mynyddoedd). Nid ydynt o reidrwydd yn berthnasol i enwau tai nac adeiladau ond ceir ynddynt lawer o egwyddorion gwerthfawr y gellid eu cymhwyso wrth drin yr enwau hynny neu wrth fathu enwau ar ddatblygiadau newydd. Caiff y ddogfen hon ei diweddarau wrth i'r Panel ystyried gwahanol enwau ac mae'n bosibl y caiff egwyddorion eu hychwanegu at y canllawiau o bryd i'w gilydd.

Mae'r Comisiynydd yn cynnig gwasanaeth ymgynghorol i sefydliadau ac unigolion ar faterion yn ymwneud ag enwau lleoedd. Gellir cysylltu drwy'r ffurflen ar lein neu drwy anfon e-bost at [post@comisiynyddygydraeg.cymru](mailto:post@comisiynyddygydraeg.cymru).

## 1. Orgraff safonol

Dylid cydymffurfio ag egwyddorion cyfredol orgraff safonol yr iaith Gymraeg. Mae'r Panel Safoni Enwau Lleoedd yn cydnabod mai *Geiriadur Prifysgol Cymru* sy'n gosod safon orgraff yr iaith Gymraeg a dylid glynu at ffurfiau'r Geiriadur lle bo modd. Fodd bynnag, mae'r Panel yn argymhell defnyddio acen grom mewn rhai enwau – yn groes i arfer yr orgraff safonol – er mwyn osgoi amwyster a sicrhau ynganiad cywir (*Yr Hôb*, *Aberbîg*, *Y Pîl*).

## 2. Rhestr o Enwau Lleoedd


Dylid cydnabod, fel man cychwyn, y ffurfiau a argymhellir yn Elwyn Davies, *Rhestr o Enwau Lleoedd/A Gazetteer of Welsh Place-Names* (trydydd arg.; Gwasg Prifysgol Cymru, 1967) ynghyd ag argymhellion blaenorol Tîm Safoni Enwau Lleoedd Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Y *Rhestr o Enwau Lleoedd* hwn (neu'r 'Gazetteer' fel y gelwir ef yn aml)

oedd y cyfeirlyfr safonol i orgraff enwau lleoedd Cymru. Mae angen rheswm da dros fynd yn groes iddo. Serch hynny, tyfodd treflannau, maestrefi a threfi er 1967 ac mae'r hinsawdd ieithyddol heddiw yn wahanol, felly mae gofyn i'r Panel ddehongli a diweddarau ffurfiau'r *Gazetteer*. Ymgais yw'r ddogfen hon i ffurfioli, egluro ac addasu yn ôl y galw y confensiynau sydd yn y *Gazetteer*.

### 3. Cysylltnod

---

- i) Yn y Gymraeg mae'r brif acen fel arfer yn syrthio ar y goben (y sillaf olaf ond un) a dylid cymryd yn ganiataol mai aceniad gobennol sydd i enw lle (*Rhymni, Tyddewi, Rhydyclafdy, Rhosllannerchrugog, Penyberth, Moelyci*).
- ii) Defnyddir y cysylltnod mewn geiriau cyfansawdd pan *nad* yw'r acen yn syrthio ar y goben. Felly os y sillaf olaf sydd yn cynnal y brif acen, defnyddir cysylltnod er mwyn dangos hynny'n glir i'r darlennydd (*Aber-erch, Aber-cuch*).
- iii) Defnyddir y cysylltnod hefyd pan fo'r fannod (*y/yr*) yn dod o flaen elfen olaf unsill enw lle. Mewn enwau o'r fath mae angen cynnwys cysylltnodau cyn ac ar ôl y fannod er mwyn dangos yr elfennau unigol a sicrhau ynganiad cywir (*Betws-y-coed, Porth-y-rhyd*). Sylwer mai *ar ôl* y fannod yn unig y defnyddir cysylltnodau os 'r yw ffurf y fannod sy'n digwydd o flaen elfen olaf unsill (*Troedrhwi'r-clawdd, Islaw'r-dref*).
- iv) Defnyddir y cysylltnod pan fo arddodiad yn dod rhwng dwy elfen arall. Mewn enwau o'r fath mae angen cynnwys cysylltnodau cyn yr arddodiad ac ar ei ôl er mwyn dangos yr elfennau unigol a sicrhau ynganiad cywir (Llanfihangel-ar-Elái, Llanfair-ym-Muallt).
- v) Mae eithriadau fodd bynnag, sef yr enwau hynny sydd wedi hen ennill eu plwyf yn genedlaethol (*Llandaf, Caerdydd, Llanrug, Llanrwst, Penarth, Pontypridd, Llansanffraid*).
- vi) Yn yr un modd, nid oes angen cysylltnod i ddynodi pwyslais ar y sillaf olaf, lle bo marc diacritig arall yn gwneud hyn eisoes (*Llandygái, Caersŵs, Aberdâr, Pentredŵr*). Eithr mae angen cysylltnod mewn enwau o'r fath sy'n cynnwys y fannod o flaen elfen unsill (*Llannerch-y-môr, Tre'r-ddôl*).
- vii) Defnyddir y cysylltnod i wahanu cyfuniadau o gytseiniaid y gellid eu camddehongli fel deugraffau (*Pont-hirwaun, Coed-duon*).
- viii) Defnyddir y cysylltnod hefyd ar ôl yr elfen *pont* o flaen enw rhyd sy'n cynnwys y fannod ac elfen unsill (*Pont-rhyd-y-fen, Pont-rhyd-y-groes*).



### 4. Un gair neu fwy?

---

- i) Mae'n arferol ysgrifennu enw anheddiad yn un gair er mwyn gwahaniaethu rhwng aneddiadau (*Nantperis, Cefncribwr*) a nodweddion tirweddol (*Nant Peris, Cefn Cribwr*).

- ii) Caiff enwau nodweddion tirweddol eu hysgrifennu fel geiriau ar wahân fel rheol. Rhoddir priflythyren i'r elfennau unigol, ac eithrio'r fannod (*y/yr*), fel yn *Llyn Cors y Barcud*, er enghraifft. Fodd bynnag, cyfunir elfennau yn un gair er mwyn cyfleu'r ynganiad mewn rhai enwau lle mae'r brif acen yn syrthio ar y goben (*Llyn Dubach, Llyn Garneddwen, Llyn Gelligain*).
- iii) Os yw enw anheddiad yn cynnwys dwy acen neu ragor, cyfunir yr elfennau yn un gair gan gadw *-n-* neu *-r-* ddwbl yr elfennau gwreiddiol (*ffynnon+groyw = Ffynnongroyw, rhos+llannerch+(g)rugog = Rhosllannerchrugog*, nid *Ffynongroyw, Rhosllanerchrugog*).
- iv) Mae'n gonfensiwn ysgrifennu enwau sy'n dechrau â'r elfennau cyntaf *pen-bont, pen-y-bont, a tal-y-bont* yn ddau air neu ragor os yw'r elfen olaf yn cyfeirio at safle cydnabyddedig neu enw priod (*Pen-bont Rhydybeddau, Pen-y-bont ar Ogrwr, Tal-y-bont ar Wysg*; ond *Pen-y-bont-fawr*).
- v) Mae enwau sy'n dechrau â'r elfen *pentre(f)* neu *tre(f)* yn cael eu hysgrifennu'n un gair gan mwyaf (*Pentrefelin, Treffynnon*). Fodd bynnag, mae'n gonfensiwn eu hysgrifennu'n ddau air neu ragor os yw'r ail elfen yn cyfeirio at safle cydnabyddedig neu enw priod (*Pentre Llanrhaeadr, Pentre Tafarnyfedw, Tre Taliesin*).
- vi) Mae'n gonfensiwn hefyd rannu rhai elfennau eglwysig yn yr un modd (*Betws Garmon, Eglwys Brewys, Capel Bangor, Capel Betws Leucu, Llanbedr Pont Steffan, Eglwys Wen, Merthyr Dyfan, Mynwent y Crynwyr*).
- vii) Pan fo enw'n un gair, ni chaiff enwau priod eu priflythrennu (*Glyn- taf, Cwm-twrch, Llan-fair*). Gellir rhoi priflythyren i enw priod sy'n ymddangos o fewn enw lle arall pan fo bannod neu arddodiad rhwng y prif elfennau (*Clas-ar-Wy, Llanfihangel-y-Pennant, Betws-yn-Rhos*). Noder yr eithriad *Saint-y-brid*.
- viii) Gellir ysgrifennu enw'n ddau air neu ragor os yw'n cynnwys enw priod ac nad oes bannod neu arddodiad rhwng y prif elfennau (*Llan Ffestiniog, Dre-fach Felindre, Bryn Pen-y-lan*). Bydd enwau aneddiadau sy'n cynnwys *uchaf/isaf* yn cael eu hysgrifennu'n un gair (*Efailisaf, Rhyduchaf, Pentre-uchaf*) ac eithrio pan fo *uchaf/isaf* yn elfen wahaniaethol neu yn achos enwau plwyfi a wardiau etholiadol. Bryd hynny, caiff yr enwau eu hysgrifennu'n fwy nag un gair, a phriflythyren i'r elfen *Uchaf/Isaf* (*Brynaman Isaf, Cilâ Uchaf*).
- ix) Dilynir yr un patrwm yn achos yr elfen *Eithaf* hefyd (*Llanfair Mathafarn Eithaf*).

## 5. Enwau personol

---

Dylid ystyried ffurfiau gwreiddiol enw personol wrth drafod orgraff (*Cei Connah, Rhyd-y-Brown*). Fodd bynnag, mae Cymreigio enwau personol yn arfer cyffredin (*Treforys/Morrison, Pont-iets, Porthmadog*).



## 6. Bathiadau

---

Dylid ymwrthod â ffurfiau pedantig, adferiadau hynafiaethol, cyfieithiadau llythrennol neu fathiadau mympwyol oni bai bod tystiolaeth bod y ffurf wedi ennill ei phlwyf (*Brychdyn, Cei Connah, Cil-y-coed*). Gwelir bathiadau rhesymegol yn achos enwau sydd wedi ennill eu plwyf, e.e. *Aberddawan* yw ffurf Gymraeg safonol *Aberthaw*, felly mabwysiedir *Dwyrain/Gorllewin Aberddawan*, er nad oes tystiolaeth hanesyddol ysgrifenedig o ffurf Gymraeg am *East/West Aberthaw*.

## 7. Tafodiaith

---

Dylid ystyried tystiolaeth dafodieithol neu arfer leol o safbwynt sillafu, ynganu ac aceniad, yn arbennig os yw ffurf leol wedi ennill ei phlwyf yn genedlaethol (*Dole, Pencader, Cwm-cou, Froncysyllte*). Eithr dylid glynu at yr orgraff safonol hyd y bo modd, gan gofio bod yr enwau'n perthyn i Gymru gyfan, a bod enw, neu ran o'r enw hwnnw, yn ymddangos mewn sawl rhan o Gymru (*blaenau, gwaun, cadair, heol*).

## 8. Ffuriau deuol

---

Dylid anelu at arfer un ffurf yn unig pan nad oes ond llythyren neu ddwy o wahaniaeth rhwng y ffurf Gymraeg a'r ffurf 'Saesneg', gan dueddu at y ffurf Gymraeg. Dyma hefyd ddymuniad yr Arolwg Ordnans ac Awdurdodau'r Priffyrdd. Eithr dylid cydnabod amrywiadau sefydlog (*Caeriw/Carew, Biwmares/Beaumaris, Y Fflint/Flint, Wrecsam/Wrexham*).



## 9. Y fannod (y/yr/'r) ac elfennau dibwyslais eraill

---

- i) Mae'r fannod yn elfen annatod o rai enwau (*Yr Wyddgrug, Y Drenewydd*).
- ii) Mae'r arfer o gynnwys y fannod yn newid ac nid yw bob amser erbyn hyn yn cael ei hystyried yn rhan annatod o rai enwau lleoedd ac ni ddefnyddir hi ym mhob cyd-destun (*y Tymbl, y Gaerwen*). Fodd bynnag, yn yr enghreifftiau hyn defnyddir y fannod yn aml yn rhan o ymadrodd mewn cyweiriau ffurfiol (*mynd i'r Tymbl*), ond mae'n ddigon cyffredin ei hepgor mewn cyweiriau llai ffurfiol (*mynd i Gaerwen*).
- iii) Mater anodd yw cytuno a yw'r fannod yn rhan annatod o enw penodol ynteu a yw'n digwydd mewn ymadrodd yn unig. Cred y Panel fod rhinwedd mewn bod yn geidwadol a chynnwys y fannod yn rhan annatod o'r enw safonol pe na bai ond er mwyn cynnig arweiniad o ran treiglo'r enw (*i'r Bala* yn hytrach nag *i Fala*). Gall hyn fod yn arbennig o ddefnyddiol i bobl sy'n dysgu Cymraeg.
- iv) Defnyddir llythyren fach i'r elfen ddibwyslais (y fannod neu arddodiad) yng nghanol enw (*Pen-y-banc, Porth-y-rhyd, Pont-ar-sais*).

- v) Gyda llythyren fach yr ysgrifennir y fannod o flaen enw lle pan fydd yn rhan o frawddeg (*Mae gen i deulu yn y Borth*).
- vi) Rhoddir priflythyren i'r fannod pan fydd yr enw lle yn cael ei ddefnyddio yn rhan o gyfeiriad post neu yn eitem ar restr (*25 Heol Haul, Y Borth*).

## 10. Y didolnod ar -i- acennog yn y goben

---

Lle mae'r elfen olaf yn ddeusill, nid oes angen didolnod (*Caerllion, Llanrhian, Llwynypia*) oni bai bod yr ynganiad yn amwys (*Gias, Llangïan* (cf. *gïau*)); os yw'r elfen olaf yn hwy na deusill, mae angen didolnod (*Cwmsyfiog, Llandybïe*).

## 11. Y collnod mewn enwau lleoedd Cymraeg

---

Mae'n gonfensiwn ysgrifennu'r elfen *Tyn* (Tyddyn) heb gollnod (*Tyn-y-ffordd, Tyn-y-groes, Tyn'reithin*).

## 12. Atalnodi mewn enwau lleoedd Saesneg

---

Ceir nifer o enwau lleoedd Saesneg yng Nghymru sy'n cyfeirio at enwau seintiau. Y confensiwn diweddar yw peidio â rhoi atalnod llawn ar ddiwedd byrfodd sy'n cynnwys llythyren olaf y gair (*Saint > St*) a hepgor y collnod sy'n dangos meddiant (*St Brides Major, St Davids, St Dogmaels, St Mellons*).

## 13. Enwau tirweddol tawtolegol

---

Ceir rhai enwau tirweddol sy'n cynnwys yr un elfen fwy nag unwaith, er enghraifft *Llyn Dulyn* a *Llyn Cwellyn*. Ar y llaw arall mae hepgor *Ilyn* yn gyffredin o flaen enwau llynnoedd eraill (*Glaslyn, Gloywlyn*). Gellir cynnwys yr enw disgrifiadol (*Ilyn, afon*) o flaen enwau sy'n cynnwys *Ilyn* os dyna'r ffurf fwyaf cyffredin. Gall fod yn ffordd hwylus o wahaniaethu rhwng dwy nodwedd sy'n rhannu'r un enw sylfaenol (e.e. *Llyn Hiraethlyn* ac *Afon Hiraethlyn*).

